



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

ECAD6017C

Ymchwilio i'r Dysgu: beth,
sut a pham ydw i'n
addysgu?

BA ADDYSG GYNRADD

Gyda Statws Athro

Cymwysedig

LEFEL 6

2026 -2027

1. Manylion Cyswllt

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modiwl, cysylltwch â:

Elaine Sharpling – elaine.sharpling@uwtsd.ac.uk

Sioned Hughes – s.v.hughes@uwtsd.ac.uk

Roberta Tucker - r.tucker@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modiwl ac rydym yma i'ch helpu. Dylech wneud y canlynol:

- Gwneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifiol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad cau
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn.

Darllen Rheoliadau'r Brifysgol i Fyfyrrwyr

3.Ffyrdd o weithio

Yn y modiwl hwn byddwch yn cymryd rhan mewn tri math gwahanol o sesiynau dysgu – presenoldeb yn angenrheidiol:

Math o sesiwn	Pwrpas	Staff
Darlith Arweiniol -Grŵp	I archwilio egwyddion ymchwil astudiaeth achos,	Elaine a Sioned

	fframio eiich cwestiwn ymchwilio, dylunio eich astudiaeth ac egwyddorion moeseg.	
Seminar – grwpiau bach 6/7 myfyriwr	Parhau gyda’r drafodaeth yn dilyn y darlithoedd arweiniol ac archwilio syniadau yn fanylach.	Tiwtoriaid Arwain Ymchwil
Tiwtorial – grwpiau bach 3 / 4 myfyriwr group	Cyfle i ddarpar-athrawon drafod eu gwaith gyda chefnogaeth cyfoedion a’r tiwtor arwain ymchwil.	Tiwtoriaid Arwain Ymchwil

4. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Rhoi i ddarpar athrawon y sgiliau ymchwil a’r ymagweddau sydd eu hangen i ymgymryd ag agwedd amheugar wrth ddadansoddi, gwerthuso a chyfosod yn feirniadol ystod o safbwyntiau sy’n seiliedig ar dystiolaeth a fframweithiau damcaniaethol sy’n berthnasol i ddysgu ac addysgu effeithiol.
- Galluogi darpar athrawon i fod yn ymchwilyr moesegol sy’n gynyddol hunan-gyfeiriedig wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymchwil sy’n agos-at-arfer i drawsnewid arfer personol a hyrwyddo datblygiad proffesiynol mewn cymuned ymholi.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau’r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai’r darpar athro allu dangos y gallu i:

- gynllunio a chymhwyso dulliau ymchwil priodol gan ddangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol: bod yn ymchwilydd medrus;
- adfyfrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol o ran ymchwil yn y dosbarth, ac arddangos dealltwriaeth fanwl o'i egwyddorion: bod yn ymchwilydd moesegol;
- dangos rhywfaint o ymreolaeth wrth gynnal ymchwiliad agos-at-arfer i drawsnewid agwedd ar arfer personol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau dysgwyr: dangos trylwyredd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol;
- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol y dystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio hyn i ffurfio dulliau addas i drawsnewid arfer dosbarth.
- gwerthuso tystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn ynglŷn â data i gefnogi penderfyniadau addysgegol a rhannu deilliannau mewn cyd-destun proffesiynol: bod yn rhan o broffesiwn sy'n seiliedig ar ymholi.

5. Cyflwyniad i'r Modiwl

Mae dangos tystiolaeth o ymchwil, cael eich llywio gan ymchwil a bod yn barod at ymchwil yn un o bedair egwyddor Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa ac felly mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).

Ymagwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau.
<i>Bod yn sgeptigol/amheugar</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol; bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesebol</i>	Deall sylfaen foesebol ymholiad mewn gweithle cymhleth; - gwybod egwyddorion moesebol ymchwil; - deall safleoldeb/ymagweddu (<i>positionality</i>) o fewn ymchwil; - adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham; - deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i lunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfiawnhad mewn ymchwil addysgol; - defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - cymryd ymagwedd sgeptigol at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol raddfa'r gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio o blaid damcaniaethau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu; - cymryd ymagwedd sgeptigol at 'arloesedd' (polisi ac arfer) neu'r 'peth mawr nesa'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eu hystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd; - bod yn glir ynglŷn â'r hyn a fwriedir a pham; - diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr sy'n ymholi: - gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; - cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; - mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.

Ymchwilio i'r Dysgu fel rhan o'r Profiad Dewisol

Llawlyfr STEER Profiad Dewisol BA3 – 26-27

6. Cynnwys y Modiwl

Darlith Arweiniol	Mynychu eich sesiwn fel grŵp arferol
Seminar	Grwpiau bach o 6 neu 7 myfyriwr
Tutorial	Grwpiau ffocws o 3 neu 4 myfyriwr

Dyddiad	Cynnwys	Amser
Dydd Mawrth Medi 29ain	Darlith Arweiniol 1: Cyflwyniad i'r modiwl a'r fanyleb asesu – ymagweddau ymchwil, ffyrdd o weithiau, a'r cyswllt gyda'r Profiad Dewisol.	9:00-10:40
Dydd Mawrth Hydref 6ed	Darlith Arweiniol 2: Astudiaeth Achos Cyflwyniad i ymchwil astudiaeth achos.	9:00-10:40
Dydd Mawrth Hydref 6ed	Seminar 1: Adnabod eich testun ymchwil Dechrau creu eich llyfr lloffion ymchwil	11:00-12.40
Dydd Mawrth Hydref 13eg	Darlith Arweiniol 3: Fframio eich Testun Ymchwil Cyflwyniad i safleoldeb	9:00-10:40
Dydd Mawrth Hydref 20fed	Seminar 2: Cefnogaeth gyda fframio eich testun ymchwil.	9:00-10:40
Dydd Mawrth Hydref 20fed	Darlith Arweiniol 4: Darllen ac Ysgrifennu Beirniadol Sut i ymdrin â thestunau academiaidd ac adeiladu trafodaeth feirniadol	11:00-12:40
Dydd Mawrth Tachwedd 3ydd	Seminar 3: Adeiladu eich adolygiad llenyddiaeth a diweddarau eich llyfr lloffion ymchwil.	9:00-10:40
Dydd Mawrth Tachwedd 3ydd	Tiwtorial 1: Canolbwyntio ar lenyddiaeth Tasgau Cyfeiriedig: Adnabod llenyddiaeth Cwblhau'r cwrs llyfrgell info'skills Gwirio eich dealltwriaeth o gyfeirnod	11:00-12:40
Dydd Mawrth Tachwedd 10fed	Darlith Arweiniol 5: Y Cwestiwn Ymchwil a'r Dyluniad Ymchwil	9:00-10:40
Dydd Mawrth Tachwedd 17eg	Seminar 4: Creu eich Dyluniad Ymchwil	9:00-10:40

Dydd Mawrth Tachwedd 17eg	Tiwtorial 2: Canolbwyntio ar ddyluniad ymchwil Tasgau Cyfeiriedig Diweddarau eich llyfr lloffion ymchwil Ysgrifennu paragraff beirniadol yn seiliedig ar eich llenyddiaeth hyd yn hyn	11:00-12:40
Dydd Mawrth Tachwedd 24ain	Darlith Arweiniol 6: Ystyriaethau Moesegol	9:00-10:40
Dydd Mawrth Rhagfyr 1af	Seminar 5: Ffurflen Foeseg	9:00-10:40
Dydd Mawrth Rhagfyr 1af	Tiwtorial 3: Cyflwyno'r Ffurflen Foeseg	11:00-12:40
Dydd Mawrth Ionawr 5ed	Darlith Arweiniol 7: Dadansoddi Data	9:00-10:40
Dydd Mawrth Ionawr 5ed	Seminar 6: Barod i Ymchwilio	11:00-12:40
18-22.01.27	PROFIAD DEWISOL	
Dydd Mawrth Ionawr 26ain	Darlith Arweiniol 8: Myfyrio – gwybod, bod, gweithredu	9:00-10:40
Dydd Mawrth Ionawr 26ain	Seminar 7: Ymgysylltu gyda eich data	11:00-12:40
Dydd Mawrth Ionawr 26ain	Tiwtorial 4: galw heibio – cefnogaeth aseiniad	1:15 – 3:00

7. Tasg asesiad a chanllawiau

COD Y MODIWL	TEITL Y MODIWL	DULL ASESU
ECAD6017C	Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?	Gwaith cwrs (100%): Aseiniad Ysgrifenedig Unigol Prosiect Ymchwil: Astudiaeth Acho syn seiliedig ar Brofiad Dewisol (4000 o eiriau) Dyddiad Cyflwyno - 03.02.27 (amser cau 23:59)

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu manylach.

8. Rhestr Ddarllen

Cod Modiwl	ECAD6017C	
Teitl Modiwl	Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu? 3	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronic
Hanfodol	Arthur, J. (Gol.). (2012) <i>Research methods and methodologies in education</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Baxter, P., & Jack, S. (2008). Qualitative case study methodology: Study design and implementation for novice researchers. <i>The qualitative report</i> , 13(4), 544-559.	☒
Hanfodol	Bell, J. (2014). <i>Doing Your Research Project: A guide for first-time researchers</i> . Maidenhead: McGraw-Hill Education (UK).	☒
Hanfodol	BERA 2024 Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024) BERA	☒
Hanfodol	Braun, V., & Clarke, V. (2022) <i>Thematic Analysis: a practical guide</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Bruce, T., Louis, S. & McCall, G. (2014) <i>Observing Young Children</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Essential	Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2013) <i>Research Methods in Education</i> , London: Routledge.	☒
Hanfodol	Thomas, G. (2013) <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒
Hanfodol	UWTSD (2022) <i>Research Ethics & Integrity Code of Practice</i> Available at: REICoP-July-2022.pdf (uwtsd.ac.uk)	☒
Hanfodol	Yin, R. K. (2013) <i>Case study research: Design and methods</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Clark, A. (2005). Three: Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspectives. <i>In Beyond listening</i> , Bristol, UK: Policy Press. available from: https://doi.org/10.51952/9781447342403.ch003	☒
Pellach	Creswell, J. W. (2012) <i>Qualitative inquiry and research design: Choosing among five approaches</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒

Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2012) <i>The Landscape of Qualitative Research: Theories and Issues</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds), (2018) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Gorard, S. (2010). <i>Quantitative methods in educational research: The role of numbers made easy</i> . London: Bloomsbury Publishing.	☒
Pellach	Holliday, A., (2007) <i>Doing and Writing Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Israel, M (2014) <i>Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance</i> , Washington: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Lewis, V., Kellett, M., Robinson, C., Fraser, S. & Ding, S., (2006) <i>The Reality of Research with C</i> May, T. & Perry, B. (2011) <i>Social Research and Reflexivity: Content, Consequence and Context</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds), (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Ramdhani, A., Ramdhani, M.A. and Amin, A.S. (2014) Writing a Literature Review Research Paper: A step-by-step approach. <i>International Journal of Basic and Applied Science</i> , 3(1), pp.47-56. Available at: https://digilib.uinsgd.ac.id/5129/1/08IJBAS%283%29%281%29.pdf	☒
Further	Thody, A., (2006) <i>Writing and Presenting Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐

Gwefannau

BERA [Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition \(2024\)](#) | BERA

Cyngor Gweithlu Addysg (CGA): [Adnoddau a chanllawiau](#) Neu EWC
<https://www.ewc.wales/site/index.php/en/professional-development/resources-and-guides>

National Foundation for Educational Research (NFER) <https://www.nfer.ac.uk/for-schools/free-resources-and-advice-for-schools/research-in-schools-guides/>

HWB – Professional learning: Schools as Learning Organisations
<https://hwb.gov.wales/professional-development/schools-as-learning-organisations/>